

InBrief

TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

tvlicensing.co.uk

Gaeaf 2017

p2




Consesiynau
Archebion Llenyddol

p3



Trwyddedu Teledu ar
y ffordd
Next Step Initiative

p4



Holwch Trwyddedu
Teledu
Ffyrdd o dalu

Bwrw golwg yn ôl dros 2016

Dros y 12 mis diwethaf, rydym ni wedi gweld nifer o newidiadau sydd wedi effeithio ar ein sefydliadau partner a'r rheiny sy'n talu ffi'r drwydded. Newidiodd y gyfraith ym mis Medi, sydd nawr yn golygu bod angen trwydded deledu i wyllo neu lawrlwytho rhaglenni'r BBC ar iPlayer, hefyd, gwnaethon ni weithredu'r Weithdrefn Cyfiawnder Sengl, ar gyfer achosion Trwyddedu Teledu, lle caiff achosion eu hadolygu gan un ynad yn hytrach nag mewn llys agored. Hefyd, gweithion ni gyda mwy na 460 o sefydliadau rhanddeilaid ledled y wlad, a chyflwyno deunyddiau newydd a chymorth i'r grwpiau hyn.

Wrth i ni ddechrau ar flwyddyn newydd a set newydd o ddatblygiadau, hoffwn feddwl yn gyntaf am yr holl sefydliadau partner yr ydym wedi cwrdd â nhw a phobl, fel chi, sydd wedi ein helpu i roi gwybodaeth ac addysg i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn 2016.

Ar lefel ranbarthol, rydym wedi bod yn brysur gyda'n gwaith parhaus gyda grwpiau, yn darparu cyngor gwerthfawr a chefnogaeth mewn cymunedau lleol ledled y wlad. Er mwyn cefnogi eich gwaith, rydym wedi creu ystod newydd o lenyddiaeth (mwy o fanylion ar dudalen 2) gan gynnwys poster i'w gellir eu haddasu ar gyfer eich anghenion a thafenni wedi eu hanelu'n benodol at ymgynghorwyr.

Fel rhan o'r newidiadau ynghylch iPlayer, rydym wedi gweithio gyda dros 900 o sefydliadau ledled y DU i'w cynorthwyo i ddiweddarau eu gwybodaeth ar-lein a'u briffio am y newidiadau.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethon ni

gyfarfod â chymaint o gynghorwyr ysbrydoledig - cynrychiolwyr o sefydliadau cenedlaethol, grwpiau cymunedol gwledig bach, a llawer mwy rhyngddynt. Fe wnaeth ein tîm cysylltiadau cymunedol gyfarfod â'r Polish British Integration Centre yn ne-ddwyrain Lloegr, a chreu taflen ffeithiau pwrpasol ar gyfer eu cleientiaid a datblygu cynnwys ar gyfer eu safle Facebook. Cynhalion ni weithdy ar gyfer ymgynghorwyr yn Newcastle ar ddiwedd mis Mehefin, lle gwnaethon ni gyfarfod â gweithwyr cymuned, cynrychiolwyr Canolfannau Cyngor ar Bopeth a'r cyngor, gan orffen y dydd gyda sesiwn holi ac ateb ysgogol.

Dros yr haf fe gwrrddon ni â Churches Housing Action Team yn Ne Orllewin Lloegr, gan weithio gyda'u tîm Cyngor ar Ddyled sydd newydd ei sefydlu er mwyn eu briffio ar Drwyddedu Teledu. Daethon ni hefyd yn bartneriaid gyda AdviceUK - Cymru a'r De Orllewin, gan eu darparu nhw gyda chynnwys ar gyfer eu cylchlythyr a rhoi cyngor iddyn nhw ar wybodaeth ddiweddar am Drwyddedu Teledu ar gyfer eu gwefan.

Cynhalion ni sesiwn ymgysylltu gyda Money Advice Dwyrain Lloegr, lle gwnaethon ni friffio ymgynghorwyr ar ddyledion a Chyngor ar Bopeth, ar y newid yn y gyfraith, ac yn yr Alban fe gwrrddon ni â'r Macular Society er mwyn trafod y gwahanol fathau o gefnogaeth y gall Trwyddedu Teledu eu cynnig.

Yn 2016, gweithion ni gyda Clanmil Housing Association yng Ngogledd Iwerddon. Datblygon ni gopi ar gyfer eu cylchlythyr mewnol, darparu llenyddiaeth ac roeddem wrth law i



oedd yn dilyn ynglŷn â thrwyddedau ARC.

Ar lefel genedlaethol, bum yn gweithio gydag Age UK ar y drwydded deledu rhad ac am ddim i bobl dros 75 oed, a gyda'r RNIB i amlygu'r consesiwn o 50% i bobl ddall.

Rydym ar hyn o bryd, ynghyd â dau o'n sefydliadau partner cenedlaethol, yn profi llinell gymorth a chyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer cynghorwyr. Bydd y llinell gymorth yn galluogi'r cynghorwyr i gynorthwyo eu cleientiaid trwy ddatrys unrhyw broblemau, creu cynlluniau talu i bobl, bobl a chreu ffordd hawdd o godi problemau yn ymwneud â chwsmeriaid sy'n agored i niwed. Yn y misoedd sydd i ddod byddwn yn ehangu'r prawf yn lleol drwy weithio gyda rhai sefydliadau cynghori ariannol ranbarthol.

Rydym bob amser yn awyddus i weithio gyda sefydliadau lleol ac, os ydych chi'n credu y gallech elwa ar weithio gyda ni, cysylltwch â campaignoffice@tvlicensing.co.uk i gael mwy o wybodaeth.

Dymunaf flwyddyn ffyniannus a chadarnhaol i chi a'ch tîm, ac edrychaf ymlaen at gyfarfod â llawer mwy ohonoch yn 2017.

Dan Higgins
Golygydd, In Brief

Arolwg Trwyddedu Teledu wedi datgelu bod dros 100 o enwau Saesneg ar gyfer ein dyfais rheoli'r teledu

Mae gan yr allwedd i ffefrynnau nifer o bobl ar y teledu, y ddyfais rheoli'r teledu neu'r remote control, dros 100 o lisenwau yn y Saesneg yn ôl arolwg gan Trwyddedu Teledu.

Y prif enw ar gyfer y teclyn hwn yn syml yw 'Remote', gyda 'Doofer' neu 'Doofah' yn cymryd yr ail safle a 'Zapper' yn drydydd. Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod cynnydd amlwg mewn enwau sathredig ledled y wlad, gyda dros 100 o enwau wedi eu nodi. Y ffefrynnau yn yr Alban oedd 'Gizmo', yr 'Whatcha-ma-call-it' yng Nghymru a'r 'Zapper' yng Ngogledd Iwerddon.

Awgrymodd llfarydd ar ran Trwyddedu Teledu, Jason Hill, bod yr ystod eang o dermau yn adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn cymunedau'r DU a'r newid sydd wedi bod yn y ffordd mae pobl yn gwyllo'r teledu.

"Dair blynedd yn ôl, yn ôl ymchwil a wnaed, roedd tua 50 o lisenwau ar gyfer y remote control, ond wrth i'r ffordd yr ydym yn gwyllo teledu amrywio, mae'n naturiol fod ein hiaith yn addasu yn unol â ffyrdd newydd o ymddwyn a ffyrdd o wyllo.

"Mae'n rhaid i chi gael trwydded os ydych yn gwyllo neu'n recordio rhaglenni teledu byw ar unrhyw sianel neu os ydych yn lawrlwytho neu'n gwyllo rhaglenni'r BBC ar iPlayer. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddyfais yr ydych yn ei defnyddio," meddai.

Consesiynau Trwyddedu Teledu

Mae Trwyddedu Teledu wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel yr RNIB ac Age UK i wneud yn siŵr bod gwylwyr yn ymwybodol o'r gwahanol gonsesiynau sydd ar gael.

Mae pobl sydd yn ddall (â nam difrifol ar eu golwg), neu'n byw gyda rhywun sydd ag anableded o'r fath, yn gymwys i wneud cais am gonsesiwn i'r deillion ar eu trwydded teledu, sy'n caniatáu iddyn nhw arbed 50 y cant ar y gost.

Mae gan wylwyr sydd â nam ar eu llygaid ddewis ehangach o raglenni sain ddisgrifio i'w mwynhau wrth i niferoedd cynyddol o sioeau BBC ar draws ystod o genres gael eu darlledu gyda sain ddisgrifio. 'The Vikings Uncovered' oedd un o'r sioeau sain ddisgrifio gafodd ei gwyllo mwyaf y llynedd, gyda dros 19,000 o lawr lwythiadau sain ddisgrifio o'r rhaglen ddogfen hanesyddol. Am ragor o wybodaeth am y consesiwn ewch i tvlicensing.co.uk/blind

Ymunodd Trwyddedu Teledu hefyd gydag Age UK i atgoffa pawb sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 75 yn y 12 mis nesaf eu bod yn gymwys i hawlio trwydded deledu am ddim.

Gall unrhyw un sydd dros 75 wneud cais am drwydded deledu am ddim ar gyfer eu prif gyfeiriad ac mae dros 4 miliwn o bobl ledled y DU eisoes yn mwynhau manteision y consesiwn hwn.

Dywedodd Caroline Abrahams, Cyfarwyddwr Elusen Age UK:

"Mae gwerth mawr ar y drwydded am ddim i bobl dros 75. Mae'r teledu yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth adloniant ac yn cysylltu pobl â'r byd y tu allan i'w cartrefi ond gall fod yn gost sylweddol. Byddem yn annog pawb sydd dros 75 i wneud cais am eu trwydded teledu rhad ac am ddim os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod."

Am ragor o wybodaeth am y drwydded i'r rhai dros 75 ewch i www.tvlicensing.co.uk/over75info

Llenyddiaeth Trwyddedu Teledu

Rydym wedi datblygu ystod newydd sbon o daflenni a phecynnau gwybodaeth sydd ar gael nawr i'ch helpu chi i gefnogi eich cleientiaid.

Gallwch archebu amrywiaeth o ddeunydd, o daflenni sydd wedi eu cynllunio'n arbennig i ymgynghorwyr i daflennu bach gyda gwybodaeth i denantiaid. Maen nhw hefyd ar gael mewn fformat print bras hygyrch.

Rydym wedi cynnwys poster 'Ffyrdd o Dalu', sy'n rhoi trosolwg o'r dulliau talu gwahanol, a phoster gwag y gellir ei ddefnyddio i fewnosod manylion eich ymgynghorwyr lleol neu sesiynau gwybodaeth.

Os yw eich cleientiaid yn siarad unrhyw iaith ond Saesneg gallwch archebu un o'n taflenni gwybodaeth, sydd ar gael mewn 26 iaith wahanol.

Mae'r taflenni ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan <http://www.tvlicensing.co.uk/community-relations/downloadLeaflets>

Gallwch hefyd archebu gwybodaeth am ddim o'n gwefan <https://www.tvlicensing.co.uk/cs/order-leaflets/index.app> neu drwy gysylltu â'ch swyddfa Trwyddedu Teledu ranbarthol <http://www.tvlicensing.co.uk/cs/media-centre.app>



Trwyddedu Teledu ar y ffordd



Mae Trwyddedu Teledu yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cymunedol ledled y DU. Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar Next Step Initiative. Bu InBrief yn sgwrsio â Rosemary Sleith, Swyddog Datblygu Rheoli Addysg a Chyflogadwyaeth.

C1. Yn fras, pa wasanaethau mae eich sefydliad yn eu cynnig?

Mae Next Step Initiative (NSI) yn gweithio i roi grym i gymunedau Affricanaidd yn yr Alban, sydd yn ddifreintiedig, ynysig ac sydd wedi ymddieithrio, er mwyn eu gwella a'u trawsnewid. Rydym yn cynnig ein gwasanaethau i holl aelodau eraill grwpiau lleiafrifol ethnig sy'n teimlo y gallan nhw elwa o'n cefnogaeth a'n harweiniad. Rydym yn hwyluso eu datblygiad i gyflogaeth, eu busnes neu eu mentrau cymdeithasol eu hunain ac addysg neu hyfforddiant trwy ein prosiectau amrywiol (e.e. Inspiring Transformation Project neu The Innovative Enterprise Programme) yn ogystal â thrwy Gwmni Darlledu Africa Rhyngwladol (ABCi) y Radio a Theledu. Ein nod gyffredinol yw helpu'r grwpiau hyn i integreiddio yn y gymuned Albanaidd er mwyn cael llais a chael eu cynnwys yn ariannol ac yn gymdeithasol. Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau fel Llywodraeth yr Alban a Trwyddedu Teledu er mwyn darparu gwasanaethau ar y cyd, croes gyfeiriadau a rhannu arfer da. Yn olaf, rydym yn llwyfan er mwyn i'r llais Affricanaidd gael ei glywed yn Senedd yr Alban ac ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau oddi fewn i'n rhwydweithiau masnachol, sifil a gwleidyddol. Yn sylfaen i'n gwaith y mae ymchwil a gynhyrchir gan aelodau ein sefydliad sydd naill ai'n academyddion, yn ymchwilywyr neu'n berchnogion busnesau sydd wedi eu sefydlu neu'n entrepreneuriaid.

C2. Sut mae eich rôl yn gweddu yno a beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am eich swydd?

Gan mai fi yw'r Rheolwr Dysgu, Addysg a Hyfforddi rwy'n ymwneud yn fawr ag agweddau

cyflogaeth y sefydliad. Ymhellach, rwy'n gweithio ar hyn o bryd gyda Money Advice Scotland er mwyn sefydlu gwasanaeth cyngor ar arian sydd â phwyslais Affricanaidd. Daw fy niddordeb yn y maes yma o fy mywyd blaenorol fel Pennaeth Gwasanaethau Cyllido Myfyrwyr mewn addysg uwch a thrydyddol. Ar ôl treulio 20 mlynedd gychwynnol fy mywyd yn Nigeria, a chan fy mod wedi bod yn ddiweddar yn Gyfarwyddwr y Wlad ar gyfer Addysg a Chyflogadwyaeth yn Rwanda, mae'r rôl yn caniatáu i mi gael y cyfle i gadw'r cysylltiadau a ddatblygais o gyfnod fy mhientyndod gydag Africa. Hefyd, mae'n gwneud y gwaith yn werth chweil pan rwy'n gweld ein cleientiaid yn sefydlu eu llwybrau gyrfaol, a'u gwaith eu hunain ac yn ymwreiddio yn y gymuned Albanaidd yn gyffredinol. Yn olaf, mae'n grêt i gael cwrrd ag eraill o wahanol gefndiroedd a datblygu partneriaethau gwaith gyda nhw. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi ein cleientiaid.

C3. Beth yw'r problemau cyffredin y mae eich cleientiaid yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd?

Mae materion cyffredin sy'n cael effaith ar ein cleientiaid yn cynnwys rhwystrau ieithyddol, diffyg dealltwriaeth o ran y system a'r prosesau cyfreithiol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Trwyddedu Teledu) a'r diffyg gwybodaeth ynglŷn ag at bwy a ble i droi am gymorth. Gall y problemau amrywio o unigedd i broblemau iechyd meddwl. Yn olaf, maen nhw'n wynebu sefyllfaoedd yn gyson lle mae un person, sy'n rhoi cyngor, yn dweud un peth ac un arall yn dweud rhywbeth sydd yn gwbl i'r gwrthwyneb oherwydd diffyg dealltwriaeth o statws, diwylliant, credoau neu werthoedd y cleient neu'r rheolau ac amodau sy'n sail i'r cyngor y maen nhw'n ei roi.

C4. Dywedwch wrthon ni am ymgyrch neu brosiect diweddar yr ydych wedi bod yn gweithio arno – beth oedd yn gyfrifol am ei lwyddiant?

Mae'r gwaith gyda'r Wheatley group (un o grwpiau tai ac adfywio cymunedol a gofal blaenllaw'r Alban) wedi bod yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad i weithio gyda'i gilydd i gefnogi eu tenantiaid Affricanaidd cafodd rhai o'u staff eu hyfforddi gan y tîm NSI ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a gynorthwyodd swyddogion tai ac eraill ynglŷn â'r ffordd orau i gefnogi tenantiaid o Affrica sydd â phroblemau sensitif penodol. Ymhellach, mae'r model a ddatblygwyd mewn partneriaid â NSI a nhw'u hunain wedi arwain at gynrychiolydd o Affrica ar fwrdd y Wheatley group, un ar y panel Craffu, a sefydlu'r African Housing Forum. Cafodd tenantiaid a gwblhaodd y rhaglen hyfforddi cyflogaeth ddau ddiwrnod gyfle i gael lle gwaith o fewn y Wheatley Group. Canlyniad hyn oedd derbyn gwaith cyflogedig neu'r cyfle i fynd ymlaen at addysg uwch. Mae pob Affricanwr sy'n cymryd rhan yn y prosiect erbyn hyn yn rhagweithiol yn y gymuned tai, y gymuned Albanaidd ac yn teimlo'n fwy diogel yn ariannol ac yn gymdeithasol.

C5. Beth yw manteision sefydliadau yn ffurfio partneriaethau gyda Thwyddedu Teledu?

I mi, y prif fanteision yw bod person penodol ar gael i gysylltu â nhw am gyngor yn ymwneud â chleientiaid, gwybodaeth ddiweddar, arweiniad gwyich pan fod angen, a chyfle i rannu problemau ein grwpiau o gleientiaid o ran trwyddedau teledu. Yn olaf, mae'n gyfle i drafod ffyrdd ar y cyd o gefnogi cleientiaid trwy arfer da.





Ask TV Licensing

Mae'r tîm Cysylltiadau Cymuned Trwyddedu Teledu yn siarad gyda channoedd o sefydliadau bob blwyddyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn deall pryd y mae angen trwydded a sut i dalu. Rydym yn aml yn mynychu cynadleddau, darparu gweithdai ac yn trefnu sesiynau holi ac ateb.

Fel rhan o ddiwyddiad cyson, rydym yn rhoi atebion i gwestiynau a ofynnir o hyd. Oes gennych gwestiwn yr ydych eisiau ateb iddo? Anfonwch e-bost atom yn campaignoffice@tvlicensing.co.uk neu ffoniwch ni ar 020 875 26537

All myfyrwyr gael eu cynnwys gan drwydded deledu eu rhieni?

Mewn amgylchiadau penodol, gall myfyrwyr gael eu cynnwys gan drwydded deledu eu rhieni os yw'r canlynol yn berthnasol; maen nhw'n defnyddio dyfais sydd yn derbyn pŵer gan ei fatris mewnol i wyllo teledu yn unig (fel ffôn clyfar) a dyw hi ddim wedi cael ei chysylltu ag erial neu yn gysylltiedig â'r prif gyflenwad trydan er mwyn derbyn y teledu a'u cyfeiriad parhaol (tu allan i dymor yr ysgol) yw cartref eu rhieni. Rhaid i'w rhieni hefyd feddu ar drwydded deledu ddilys ar gyfer eu cartref.

Os nad yw'n bodloni'r holl amcanion hyn, bydd rhaid i'r myfyriwr brynu ei drwydded deledu ei hunan ar gyfer ei lety myfyrwyr.

Os yw fy nghleient yn symud tŷ, ydy ei drwydded yn trosglwyddo'n awtomatig i'w cyfeiriad newydd?

Ni fydd trwydded eich cleient yn trosglwyddo'n awtomatig os ydyn nhw'n symud tŷ. Er mwyn parhau i feddu ar drwydded gywir bydd rhaid i'ch cleient ddiweddarau ei fanylion gan gadarnhau ei gyfenw, rhif ei drwydded a'r cod post newydd. Gellir gwneud hyn drwy ein gwefan <http://www.tvlicensing.co.uk/check-if-you-need-one/for-your-home/youre-moving-address-aud23>

Y diweddaraf am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn gynharach eleni fe sefydlon ni grŵp gwaith i ganolbwyntio ar wella sut yr ydym yn ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n agored i niwed. Yn benodol, rydym wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd mae Trwyddedu Teledu yn prosesu ac yn cofnodi'r wybodaeth yr ydym yn ei derbyn am hyglwyfedd cwsmer, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn y sefyllfa orau i ystyried gweithredu priodol. O ran mynediad, rydym wedi adolygu a diweddarau ychydig o'r wybodaeth Darllen Hawdd ar ein gwefan, ac mae adolygiad ehangach o'n tudalennau Darllen Hawdd ar y gweill. Rydym hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau i'n gweithdrefnau er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid sydd angen cysylltu â ni yn dilyn profedigaeth. Ym mhob un o'r meysydd hyn rydym yn anelu at wneud gwelliannau pellach.

Ffyrdd o dalu: mae sawl ffordd o dalu am drwydded deledu

Debyd Uniongyrchol

Ffoniwch 0300 790 6112 i sefydlu taliad debyd uniongyrchol misol, chwarterol neu flynyddol. Defnyddir Debyd Uniongyrchol yn awr gan y mwyafrif o gwsmeriaid ac mae hi nawr hefyd yn bosibl ei sefydlu ar-lein drwy ymweld â tvlicensing.co.uk/payinfo.

Cerdyn Debyd a Chredyd

Ffoniwch 0300 790 6112 er mwyn talu gyda cherdyn debyd neu gredyd. Mae'r dull hwn yn derbyn taliad o ystod o gardiau debyd yn cynnwys Maestro/Switch a Delta. Gallwch hefyd dalu ar-lein ar tvlicensing.co.uk/payinfo.

Drwy'r Post

Anfonwch sic eidd yn daladwy i Trwyddedu Teledu i: Gwasanaethau Cwsmeriaid, Trwyddedu Teledu, Darlington, DL98 1TL

Dros y cownter

Gallwch wneud taliadau eich hunan yn un o dros 24,000 o safleoedd PayPoint dros y DU. Ewch i paypoint.co.uk/locator i ddod o hyd i'ch safle

agosaf. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth ynglyn â defnyddio PayPoint i wneud taliadau dan gynllun taliadau arian parod, ffoniwch 0300 555 0300.

Cerdyn Talu Trwyddedu Teledu

Mae'r Cerdyn Talu Trwyddedu Teledu wedi ei gynllunio i helpu pobl i gynilo arian tuag at gost eu trwydded deledu nesaf mewn symiau bach sy'n hawdd eu rheoli. Gall pobl wneud taliad unrhyw bryd, naill ai ar-lein, trwy neges destun, yn unrhyw safle PayPoint neu dros y ffôn. Ffoniwch 0300 555 3434 am ragor o wybodaeth.

Rhifau defnyddiol eraill

Rhoi gwybod am newid cyfeiriad	0300 790 6112
Ymholiadau ynglyn a chynllun talu ag arian parod	0300 790 6078
Ceisiadau am wybodaeth am Trwyddedu Teledu	0208 752 6537
Gwasanaeth amlieithog	0300 790 6044
Gwasanaeth Minicom	0300 790 6050
Ymholiadau i'r rhai sydd dros 75	0300 790 6154



Dilynwch ni ar [Twitter](https://twitter.com)



Gwyliwch ni ar [YouTube](https://www.youtube.com)